

CAPEL COFFA

CYFRIFON ANARCHWILIEDIG

FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2024

Rhif elusen cofrestredig: 239014

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024

Annwyl Gyfeillion,

Braint o'r mwyaf i mi fel Ysgrifennydd Cyffredinol Capel Coffa yw cael cyflwyno Adroddiad 2024 i'ch sylw.

Roedd y flwyddyn yn dechrau gyda'i sialens newydd o fod yn ddi-Weinidog a di-Fugail ers ymddeoliad y Parch Gareth Edwards fis Hydref 2023 a hynny ar ôl cyfnod o dair blynedd ar ddeg.

Mae ein dyled fel Eglwys yn fawr iawn iddo am ei ofal gofalus o'i braidd. Rhoddodd yn helaeth i wasanaeth ei Arglwydd yn ein plith. Diolchwn iddo ef a Margaret am eu llafur a'r paratoi trylwyr a wnaed ganddo i bregethu'r Gair a hynny bob amser yn safonol. Diolch o waelod calon. Dymunwn bob bendith i chi yn y dyfodol a boed i chi fwynhau eich ymddeoliad a hynny wedi hanner canrif yn gwasanaethu yr Arglwydd Iesu Grist. Da Wâs da a ffyddlon.

Yn ystod y flwyddyn, dathlodd dau o'n haelodau eu canfed penblwydd sef David Foulkes a Sam Owen. Yn anffodus bu i ni golli David Foulkes o'n plith. Er nad yw Sam Owen yn gallu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd, dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol. Bu'n eithriadol o weithgar gyda nifer o weithgarwch ynglŷn â'r Capel. Diolch Sam am eich llafur diflino dros y blynyddoedd.

Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd y brawd Huw Williams fel Diacon a hynny wedi cyfnod o dri deg chwech o flynyddoedd. Bu'n ysgwyddo llawer baich yn ystod y blynyddoedd yma a mawr yw ein dyled a'n diolch iddo. Dymunwn bob bendith i'r dyfodol.

Daeth y flwyddyn a'i cholledion a bu i ni golli tri aelod o'n plith. Mae colli ffyddloniaid yn gadael bwlch enfawr ar eu hôl.

Mae aelodaeth Capel Coffa wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hynny yn rhoi mwy o gyfrifoldeb arnom. Cyfrifoldeb pob un yw sicrhau ein bod yn gwneud ein rhan er parhad yr Eglwys a'r Efengyl. Achos sydd mor agos at galon pob un ohonom.

Diolch i bawb am y gwaith a gyflawnir ac a ysgwyddir ganddynt er sicrhau bod Gair Duw yn rhan o'r Gymdeithas yma yn y Cyffordd.

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at y rhai sy'n analluog i fynychu'r oedfaon ar y Sul. Bendithied yr Arglwydd chwi a rhodded i chwi dangnefedd.
Edrychwn ymlaen i'r dyfodol a hynny dan arweiniad ein Harglwydd Iesu Grist.


Yn gywir

D. Glyn Williams,
Ysgrifennydd Cyffredinol

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024

CYFRIF AELODAETH CAPEL COFFA AM 2024	
Rhif yr aelodau ar ddiwedd 2023	56
Derbyniwyd Aelodau Newydd	<u>0</u>
	56
Bu farw	3
Collwyd o'n plith	<u>0</u>
RHIF YR AELODAETH AR DDIWEDD 2024	53



Arwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar

Adroddiad Archwiliad Annibynnol

I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio

Rydym yn adrodd ar gyfrifon yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Rhagfyr 2024.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar archwilydd

Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad llawn y flwyddyn hon o dan adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau a bod archwiliad annibynnol ei angen.

Ein cyfrifoldeb ni yw;

- Archwilio'r cyfrifon o dan adran 145 o'r Ddeddf 2011
- Dilyn y canllawiau a osodwyd yn y cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf 2011; ac
- Datgan os oes unrhyw beth wedi dod i'n sylw

Sail yr adroddiad archwiliad annibynnol

Mae ein harchwiliad wedi ei wneud yn unol ar gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion a gedwir gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynwyd i'r cofnodion. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o eitemau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio am esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ar fath eitem. Nid yw'r gwaith a ymgwymerir yn darparu tystiolaeth a fuasai ei hangen mewn archwiliad llawn ac o ganlyniad nid ydym yn datgan barn ynghylch a sail "cywir a theg" y cyfrifon, mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodir yn y datganiad isod;

Datganiad yr archwilydd annibynnol:

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad, does unrhyw fater wedi dod i'n sylw;


1. sydd yn rhoi achos rhesymol i ni gredu bod, mewn unrhyw agwedd berthnasol, bod y gofynion i;
- Gadw cofnodion y cyfrifon yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf 2011; ac
 - I baratoi cyfrifon sydd yn gyfatebol i'r cofnodion ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfrifyddu'r Ddeddf 2011

Heb gael eu bodloni; neu

2. sydd, yn ein barn, dylid tynnu sylw at, er mwyn galluogi i ni ddeall y cyfrifon.

Adroddiad Archwiliad Annibynnol

I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio




Pritchett & Co
Cyfrifwyr Siartredig
Cynghorwyr Treth Siartredig
16 Wynnstay Road
Bae Colwyn
LL29 8NB

12/09/2025

Dyddiad:

Cymeradwyo'r cyfrifon gan yr aelodau

Yn unol â thelerau ein hymgysylltiad, rydym yn cymeradwyo'r wybodaeth ariannol, sy'n cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros yr wybodaeth ariannol, gan gynnwys priodoldeb y sail cyfrifyddu a darparu'r holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol i Pritchett & Co ar gyfer llunio'r wybodaeth ariannol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'J. E. Barlow', written over a dotted line.

Mrs Jean Barlow

Ar ran Capel Coffa, Cyffordd Llandudno

CAPEL COFFA

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2024

	<u>Nodyn</u>	<u>Cronfeydd</u> <u>Anghyfyngedig</u>	<u>Cronfeydd</u> <u>Cyfyngedig</u>	<u>Cyfanswm</u> <u>Cronfeydd</u> 2024	<u>Cyfanswm</u> <u>Cronfeydd</u> 2023
<u>Adnoddau a dderbyniwyd</u>					
Cyfanswm adnoddau a dderbyniwyd		27,061	9,490	36,551	36,398
<u>Adnoddau a ddefnyddir</u>					
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd		18,962	9,467	28,429	52,991
<u>Adnoddau net cyn trosglwyddiadau</u>		8,100	23	8,123	(16,593)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		0	0	0	0
<u>Adnoddau net am y flwyddyn</u>		8,100	23	8,123	(16,593)
<u>Cronfeydd cronedig a ddygwyd ymlaen</u>		14,143	55,044	69,187	85,780
<u>Cronfeydd cronedig a gariwyd ymlaen</u>	2	22,243	55,067	77,310	69,187

CAPEL COFFA
CYFRIF ELW A CHOLLEDD
Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2024

	<u>2024</u>		<u>2023</u>	
	£	£	£	£
<u>Incwm</u>				
Casgliadau Cyhoeddus		614.87		826.79
Casgliad y Weinidogaeth		7,977.00		9,150.00
Casgliad y Genhadaeth		170.00		0.00
Tanysgrifiadau Dlolchgarwch		460.00		569.00
Cyfundebol		106.00		134.00
Er Cof		320.00		2,337.71
Coleg Yr Annibynwyr		50.00		30.00
Rhoddion Arbennig		220.00		385.00
Incwm		337.00		72.00
Grant Y Cyfundeb		500.00		5,000.00
Apel Wythnos Cymorth Cristnogol		230.00		180.00
Y Tyst		25.00		50.50
Ôl-daliad y Dreth Incwm		2,112.05		2,557.86
Rhent Ac Yswiriant yr Iard		6,320.00		680.75
Llog Clwb Cynilo		148.63		134.21
Llog Arian Ymddiriedolaeth		3,368.53		824.02
Llog y Banc		771.66		693.27
Y Gynhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb		0.00		111.00
Ffynhonnau Byw		221.00		0.00
Cronfa Elusen Gweddion		100.00		120.00
Ad-daliad Yswiriant		0.00		146.40
Ad-daliad Trethi		2,899.41		0.00
Apel Twrci		0.00		880.00
Cymdeithas Ddiwylliadol		0.00		40.00
Cronfa Elusen at Y Feibl Gymdeithas		50.00		0.00
Cronfa Elusen i'w drosglwyddo		60.00		140.00
Cyffredinol		0.00		25.00
		<u>27,061.15</u>		<u>25,087.51</u>
<u>Gwariant</u>				
Y Weinidogaeth Sefydlog	0.00		13,946.38	
Y Weinidogaeth Gynorthwyol	2,704.29		1,472.75	
Cynnal a Chadw	4,555.42		3,473.34	
Rhoddion	130.00		157.80	
Rhoddion i Gymorth Cristnogol	230.00		180.00	
Feibl Gymdeithas	50.00		0.00	
Trysorfa'r Gweddion	100.00		100.00	
Cyfraniadau i'r Undeb	280.00		308.00	
Coleg	50.00		30.00	
Yswiriant y Capel a'r Iard	1,877.79		2,071.48	
Treth Dŵr	154.57		123.80	
Treuliau/Costau	3,290.07		13,022.61	
Trydan	4,391.37		4,902.43	
BT	627.60		466.06	
Y Genhadaeth	170.00		161.00	
Y Tyst	69.50		96.00	
Cronfa Elusen	60.00		40.00	
Ffynhonnau Byw	221.00		0.00	
Apel Twrci	0.00		1,000.00	
Cymdeithas Ddiwylliadol	0.00		20.00	
		<u>18,961.61</u>		<u>41,571.65</u>
Incwm sy'n weddill ar ol gwariant		<u>8,099.54</u>		<u>(16,484.14)</u>

CAPEL COFFA
MANTOLEN O GYFRIF ARIANNOL
Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2024

		2024	2023
		£	£
Asedau Sefydlog			
Asedau Diriaethol	Nodyn 1	0.00	0.00
Asedau Cyfredol			
HSBC Prif Gyfrif		2,018.83	2,823.33
HSBC Cyfrif y Gymuned		223.74	319.70
HSBC Farchnad Ariannol		20,000.00	15,000.00
HSBC Cyfrif Eiddo Yr Ymddiriedolaeth - Dan gyfyngiadau		53,137.50	53,137.50
HSBC Clwb Cynilo		1,560.00	1,720.00
HSBC Cronfa Elusennau		369.30	186.31
		77,309.37	73,186.84
Dyledion Cyfredol			
Benthyciad		0.00	4,000.00
Arian y Clwb Cynilo		0.00	0.00
Y Genhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb		0.00	0.00
		0.00	4,000.00
Asedau Cyfredol		77,309.37	69,186.84
Asedau Net		77,309.37	69,186.84
Cronfeydd			
Cronfeydd Cyfyngedig	Nodyn 2	55,066.80	55,043.81
Cronfeydd Anghyfyngedig		22,242.57	14,143.03
		77,309.37	69,186.84

Cymeradwyir y cyfrifon gan yr ymddiriedolwyr ar ag arwyddwyd ar eu rhan gan;

CAPEL COFFA
NODIADAU IR CYFRIFON
FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2024

1. Asedau Sefydlog - Adeilad y Capel	£
Cost	
Ar 1 Ionawr 2024	0
Ar 31 Rhagfyr 2024	0
Dibrisiant	
Ar 1 Ionawr 2024	0
Dibrisiant am y flwyddyn	0
Ar 31 Rhagfyr 2024	0
Gwerth Llvfr Net	
Ar 31 Rhagfyr 2023	£0
Ar 31 Rhagfyr 2024	£0
Cafwyd adeilad y capel ei brisio yn broffesiynol gan Mr G C Butterworth, M.R.I.C.S am £75,000 ar 31ain Awst 2012	

2. Cronfeydd Cyfyngedig

	Ar 01.01.24 £	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a ddefnyddir £	Trosglwyddiadau £	Ar 31.12.24 £
Rhoddion at y genhadaeth ar ran yr Eglwys	0				0
Mantolen y Clwb Cynilo	1,720	8,454	(8,614)		1,560
Tŷ'r Capel	53,138				53,138
Cronfa Elusenol	186	1,036	(853)		369
	55,044	9,490	(9,467)	0	55,067

Tŷ'r Capel- Crëwyd y gronfa hon yn dilyn gwerthiant y Tŷ Capel . Mae'r arian wedi ei gynnal mewn cyfrif unigol ag ar gael i'w ddefnyddio pan fydd yr holl ffynonellau ariannol eraill wedi cael eu defnyddio.